# What is gender budgeting?

Gender budgeting is a flexible tool, which can work at any level, from the smallest organisation to a national government. It can reveal that a policy or service isn't reaching women and men equally, and demonstrate how addressing this will result in more efficient services.

Most budgets and initiatives are assumed to affect everyone more or less equally, and could therefore be described as 'gender neutral'. However, gender inequalities mean that women and men experience budgets in distinct ways. What appears on the surface to be gender neutral, and could therefore be expected to impact equally on men and women, may on closer examination be seen to be 'gender blind'. That is, the impact of the policy or budget expenditure may in fact affect one gender very differently to another.

## Benefits of attending the workshop:

- Gender budgeting can help you apportion money within the budget.
- Target limited resources in the most effective way to meet needs.
- Achieve equality in a changing economy.
- Learn about tools that can help with these tasks.
- Find a fresh approach to Equality Impact Assessments
- Hear from gender budgeting experts from the UK and around the world.

## Target Audience:

Policy makers and budget holders within Wales in:

- Welsh Assembly Government and Local Authorities
- NHS
- Other public sector organisations e.g. fire, police & ambulance
- Third sector

## Speakers:

- **Donna St Hill** - Commonwealth Secretariat
- **Angela O'Hagan** - Convenor of Scottish Women's Gender Budget Group
- **Sheila Quinn** - Gender Budgeting Expert and Author
- **Jemma Bridgeman** - Wales Gender Budgeting Officer - Wales Women's National Coalition

The Voice of Women in Wales
Llais Menywod yng Nghymru
Wales Women's National Coalition
Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru

The action has received funding from the European Community
The information contained in this publication does not necessarily reflect the position or opinion of the European Commission
Oxfam is a registered charity in England and Wales No 202918 and Scotland SCO 039042. Oxfam GB is a member of Oxfam International.

# Brief Background Information on Gender Budgeting Groups in the UK and Wales

## The UK Women's Budget Group

Gender budgeting is already being used in the UK and around the world. The UK Women's Budget Group (WBG) produces reports and responses providing gender analysis of government policy and advocating specific policies. In 2002 the Treasury announced that Child Tax Credit would be paid to the main carer, who is almost always a woman, rather than the main earner, who is almost always a man. This decision was made after the WBG provided evidence that it was more efficient to give the money to women, as it would have a more positive influence on children.

## The Scottish Women's Budget Group

The Scottish Women's Budget Group (SWBG) aims to encourage Scottish Parliament and the Scottish Government to change the way decisions are made about how public money is spent. The Scottish Government's equality strategy 'Working together for equality' contained a commitment for developing mechanisms for equality impact assessments of budgets and spending plans. The Scottish Government commissioned a pilot to assess the equality impact of budgets. Gender was seen as a key intervention point as it is an equality strand where there have been significant developments in other countries.

## Gender Budgeting in Wales

The Gender Budgeting Project in Wales is sponsored by the Oxfam UK Poverty Programme and the Gender Works Project. The Wales Women's National Coalition (WWNC) is the host organisation for the project, which is initially being funded for a year. The WWNC works with the Wales Gender Budget Group to promote the effective use of gender budgeting tools in economic policy and decision-making processes in Wales.

**Be Humankind** **Oxfam**

# Beth yw cyllidebu ar sail rhyw?

Arf hyblyg yw cyllidebu ar sail rhyw; mae'n gallu gweithio ar unrhyw lefel, o'r sefydliad lleiaf i lywodraeth genedlaethol. Fe all ddatgelu pan nad yw polisi neu wasanaeth penodol yn trin menywod a dynion yn gyfartal, a dangos sut gellir sicrhau gwasanaethau mwy effeithiol trwy fynd i'r afael â hyn.

Tybir bod y rhan fwyaf o gyllidebau a mentrau'n effeithio fwy neu lai'n gyfartal ar bawb, ac y gellir eu hystyried felly yn 'rhyw-niwtral'. Ond mae anghydraddoldebau o ran rhywedd yn golygu bod cyllidebau'n effeithio ar fenywod a dynion mewn ffyrdd gwahanol. Gallant ymddangos yn rhyw-niwtral ar yr olwg gyntaf, a gallem ddisgwyl o ganlyniad eu bod yn cael yr un effaith ar ddynion ag ar fenywod; ond wrth inni eu hastudio'n fanylach, fe welwn ni eu bod yn hytrach yn 'rhyw-ddall' efallai. Hynny yw, mewn gwirionedd fe all polisi gwario cyllideb fod yn effeithio mewn ffyrdd tra gwahanol ar y naill ryw a'r llall.

### Y buddion a ddaw o fynychu'r gweithdy

- Gall cyllidebu ar sail rhyw eich helpu i ddosrannu arian o fewn y gyllideb.
- Fe ddysgwch chi i dargedu adnoddau cyfyngedig er mwyn diwallu'ch anghenion yn y modd mwyaf effeithlon.
- Sicrhewch gydraddoldeb mewn economi newidiol.
- Dysgwch am yr arfau a all eich helpu yn y tasgau hyn.
- Dysgwch am ddulliau gweithredu newydd gan Siaradwyr ar Effeithiau Cydraddoldeb.
- Gwrandewch ar arbenigwyr ym maes cyllidebu ar sail rhyw o wledydd Prydain a phob cwr o'r byd.

### Y Gynulleidfa Darged:

Gwneuthurwyr Polisi a deiliaid cyllid yng Nghymru yn:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdodau Lleol
- Y GIG
- Sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus e.e. gwasanaeth tân, heddlu, ambiwlans
- Y trydydd sector

### Siaradwyr:

- **Donna St Hill** - Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad
- **Angela O'Hagan** - Cynullydd Grŵp Cyllidebu ar sail Rhyw Menywod yr Alban
- **Sheila Quinn** - Arbenigydd ac Awdur ar destun Cyllidebu ar sail Rhyw
- **Jemma Bridgeman** - Swyddog Cyllidebu ar sail Rhyw Cymru - Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru

The Voice of Women in Wales
Llais Menywod yng Nghymru
Wales Women's National Coalition
Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru

Mae'r gweithrediad wedi derbyn cyllid oddi wrth y Gymuned Ewropeaidd.
Nid yw'r wybodaeth a roddir yn y cyhoeddiad hwn o angenrhaid yn adlewyrchu safbwynt na barn y Comisiwn Ewropeaidd.
Mae Oxfam yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 202918 a'r Alban SCO 039042. Mae Oxfam GB yn aelod o Oxfam Rhyngwladol.

# Gwybodaeth Gefndirol Gryno am - Grwpiau Cyllidebu ar sail Rhyw yn y DU a Chymru

### Grŵp Cyllidebu Menywod y DU (WBG)

Mae Cyllidebu ar sail Rhyw yn cael ei ddefnyddio eisoes yn y DU a ledled y byd. Mae Grŵp Cyllidebu Menywod y DU yn paratoi adroddiadau ac atebion sy'n dadansoddi polisi llywodraethol ar sail rhywedd ac yn dadlau dros bolisïau penodol. Datganodd y Trysorlys yn 2002 y byddai Credyd Treth Plant yn cael ei dalu bellach i'r prif gynhalydd, sydd bron bob amser yn fenyw, yn hytrach nag i'r prif enillydd cyflog, sydd bron bob amser yn ddyn. Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl i'r WBG gyflwyno tystiolaeth ei bod yn fwy effeithiol i roi'r arian i fenywod, gan y byddai hyn yn cael effaith fwy cadarnhaol ar blant.

### Grŵp Cyllidebu ar sail Rhyw Menywod yr Alban

Nod Grŵp Cyllidebu ar sail Rhyw Menywod yr Alban (SWBG) yw annog Senedd a Llywodraeth yr Alban i newid y ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario. Yr oedd strategaeth Llywodraeth yr Alban o blaid cydraddoldeb 'Gweithio gyda'n gilydd dros gydraddoldeb' yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu mecanweithiau i asesu effeithiau cyllidebau a chynlluniau gwario ar gydraddoldeb. Comisiynodd Llywodraeth yr Alban gynllun arbrofol i asesu effeithiau cyllidebau ar gydraddoldeb. Nodwyd bod rhywedd yn bwynt ymyrryd allweddol, gan ei fod yn agwedd ar gydraddoldeb lle y mae datblygiadau cadarnhaol wedi digwydd mewn gwledydd eraill.

### Cyllidebu ar sail Rhyw yng Nghymru

Noddir y Prosiect Cyllidebu ar sail Rhyw yng Nghymru gan Raglen Tlodi Oxfam y DU a'r Prosiect Gender Works. Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru (WWNC) yw sefydliad lletyol y prosiect, sy'n cael ei gyllido am flwyddyn yn y lle cyntaf. Mae WWNC yn gweithio gyda Grŵp Cyllidebu ar sail Rhyw Cymru at hyrwyddo'r defnydd effeithlon o arfau cyllidebu ar sail rhyw yn y prosesau o lunio polisi economaidd a gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Bydd Ddyngarol Oxfam